Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF DDYDD GWENER 8 CHWEFROR 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis-Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Roy Grant
Arun Midha
Nicola Branson
Dennis Gethin
Teresa Rees
Carl Cooper

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Adrian Davies, Pennaeth Rhaglenni Ffeithiol a Phennaeth Rhaglenni (Saesneg) dros dro

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales

Yn gwasanaethu:

Wendy Bryant, Uned Ymddiriedolaeth y BBC
Jane Tranter, Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol (ar gyfer eitem 02)
Erik Huggers, Rheolwr Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC (ar gyfer eitem 09)
Tony Ageh, Rheolwr Rhyngrwyd y BBC (ar gyfer eitem 09)

01. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Richard Lewis
Dafydd Whittal
Sangeet Bhullar
Jane James
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) BBC Cymru Wales
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales

02. CYFLWYNIAD GAN JANE TRANTER – RHEOLWR RHAGLENNI FFUGLENNOL Y BBC

Rhoddodd Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol y BBC, Jane Tranter, gyflwyniad i aelodau'r Cyngor cyn eu cinio preifat nos Wener. Roedd yr aelodau canlynol o'r Cyngor yn bresennol: yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru Janet Lewis-Jones, Nicola Branson, Roy Grant ac Arun Midha.

Pwysleisiodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol bod dramâu'n ganolog bwysig i arlwy'r BBC o ran rhaglenni teledu, gan fod 89% o boblogaeth y DU yn gwylio drama ar ryw adeg neu'i gilydd a bod dwy ran o dair o'r gwylwyr yn gwylio drama bob wythnos. Roedd bron hanner poblogaeth y DU yn gwylio drama ar BBC One yn ystod wythnos arferol, ac roedd y gynulleidfa'n dal i gredu mai BBC One oedd y sianel orau ar gyfer dramâu. Gwelwyd hefyd bod drama wedi ymdopi'n well na *genres* eraill â'r cynnydd yn nifer y sianelau sydd ar gael, gan fod sianelau teledu daearol yn parhau i gael eu hystyried yn gartref naturiol drama.

Roedd gwaith ymchwil wedi dangos bod dramâu BBC One yn cael eu hystyried yn fwy gwreiddiol a gwahanol na'r dramâu a geir ar ITV1. Dangosodd y gwaith ymchwil hefyd bod cynulleidfaoedd dramâu'r BBC wedi aros ar yr un lefel yn ystod y 5 mlynedd diwethaf tra bod cynulleidfaoedd dramâu'r sianelau hynny sy'n cystadlu yn erbyn y BBC wedi gostwng. Credir mai rhan o'r rheswm dros hynny yw'r ffaith bod cynulleidfaoedd yn teimlo fwyfwy bod brandiau cyfarwydd yn si r o'u bodloni mewn byd lle mae dewis cynyddol o bopeth ar gael. Roedd y duedd hon i'w gweld hefyd yn amharodrwydd cynyddol pobl i ymrwymo i gyfresi drama hir sy'n newydd ac yn anghyfarwydd.

Er mai menywod h n yw gwylwyr arferol dramâu, gwelwyd bod drama'n *genre* poblogaidd ymysg pawb ar wahân i'r rheiny sydd dan 35 oed. Roedd y gwylwyr iau hynny'n ystyried y dramâu a geir ar sianelau teledu daearol yn 'rhy saff', ac roedd dynion ifanc yn aml yn beirniadu'r BBC am fethu dangos digon o ddramâu a gynhyrchir yn yr Unol Daleithiau ar ei sianelau. Fodd bynnag, roedd *Doctor Who* wedi llwyddo i fynd yn groes i'r duedd hon gan fod y gyfres yn arbennig o boblogaidd ymysg gwylwyr iau, a dynion ifanc yn enwedig. Nodwyd hefyd bod mwy o bobl ifanc yn gwylio dramâu ar BBC One na Channel 4.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol bod y setliad is na'r disgwyl mewn perthynas â ffi'r drwydded deledu'n golygu bod y gyllideb ar gyfer dramâu wedi gostwng. O ganlyniad, y dramâu hynny nad oeddent bellach yn wreiddiol fyddai'n cael eu dileu gyntaf.

Roedd dramâu a oedd yn dychwelyd i'r sgrîn, megis *Casualty, East Enders* a *Holby City*, yn rhan bwysig iawn o'r arlwy o ran rhaglenni teledu, ac roedd dramâu 'cynnes' a oedd yn adlewyrchu bywyd cyfoes yn bwysig hefyd (e.e. *Love Soup*) yn ogystal â dramâu unigol o bwys megis *Sense and Sensibility*, *Cranford*, a *The Diary of Anne Frank* sy'n debygol o gael ei darlledu ym mis Ebrill neu fis Mai 2008. Roedd y dramâu cyfoes eraill a ddangoswyd yn ddiweddar yn cynnwys *True Dare Kiss, The Street, Last Enemy*, *Doctor Who Xmas Special, Oliver Twist,* a *No 1 Ladies Detective Agency*. Dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol wrth y Cyngor bod £210miliwn yn cael ei wario ar

ddarlledu dramâu ar BBC One, a'r nod oedd cyrraedd cynulleidfa gyfan y sianel ar ryw adeg neu'i gilydd ond nid o reidrwydd ar yr un pryd. Roedd llawer mwy o ddramâu unigol yn cael eu dangos ar BBC Two, ac roedd y rhan fwyaf o'r dramâu a oedd yn dychwelyd i'r sgrîn yn cael eu darlledu ar BBC One erbyn hyn. Yn yr un modd, roedd gan BBC Four strategaeth darlledu dramâu unigol a oedd yn seiliedig ar ddeunydd bywgraffyddol yn bennaf, ond roedd y sianel hefyd wedi darlledu rhai addasiadau o ddeunydd llenyddol, megis *Diary of a Nobody* a *Fanny Hill*. Dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol wrth y Cyngor mai ei phrif nod oedd sicrhau bod y dramâu gorau o bob cwr o'r DU yn cael eu darlledu gan sianelau'r BBC ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol egluro'r sefyllfa sy'n bodoli, sef bod dramâu a gynhyrchid yn weithredol gan BBC Cymru Wales yn cael eu cynhyrchu mewn gwirionedd mewn lleoliadau y tu allan i Gymru, e.e. cafodd y ddrama *Fanny Hill* ei chynhyrchu gan gwmni annibynnol ym Mryste.

Ymatebodd trwy ddweud bod y Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WOCC) yn gwarantu y byddai 50% o'r gwaith cynhyrchu'n cael ei wneud yn fewnol, y byddai 25% o'r gwaith yn cael ei wneud gan gynhyrchwyr annibynnol, ac y byddai'r 25% sy'n weddill yn destun cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr mewnol a chynhyrchwyr annibynnol. Er bod drama yn *genre* cryf yn fewnol ar hyn o bryd, dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol bod nifer o bobl allweddol o fewn y *genre* yn gweithio y tu allan i'r BBC a'i bod yn bwysig bod y BBC yn defnyddio'r talentau hynny. Y brif ystyriaeth iddi hi oedd gwreiddioldeb syniadau. Gallai lleoliad drama fod yn hanfodol ar adegau, ond gellid symud lleoliadau bryd arall - ac roedd hynny'n digwydd. Fodd bynnag, roedd teledu'n gyfrwng creadigol, ac roedd yn rhaid i'r gelfyddyd fod yn ystyriaeth bwysicach weithiau na lleoliad y gwaith cynhyrchu.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol hefyd bod elfen o ddatblygu talent yn gysylltiedig â chynhyrchu gweithredol, a chyfeiriodd at yr hyn yr oedd Pennaeth Drama BBC Cymru Wales, Julie Gardner, wedi'i ddysgu ar ôl bod yn ymwneud â chwmnïau annibynnol trwy ddramâu megis *Life on Mars*.

Ymatebodd aelodau Cyngor Cynulleidfa Cymru trwy bwysleisio bod *Torchwood* wedi bod yn ganolog bwysig i'r broses o bortreadu Cymru ar y Rhwydwaith - yn enwedig o safbwynt meithrin dinasyddiaeth.

Gofynnodd y Cyngor i'r Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol sut y gallai rhaglenni a gynhyrchir yng Nghymru gael mwy o gydnabyddiaeth.

Pwysleisiodd y Rheolwr Rhaglenni Ffuglennol bod pobl ar hyd a lled y DU a thu hwnt yn cydnabod bod BBC Cymru Wales yn cynhyrchu dramâu ardderchog megis *Doctor Who, Torchwood* a *Sarah Jane Adventures*. Dywedodd hefyd bod nifer o ardaloedd eraill yn y DU yn eiddigeddus o BBC Cymru Wales.

Dydd Gwener 8 Chwefror 2008

03. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (yn breifat)
Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru y Cyngor bod cynhadledd y Cynghorau Cynulleidfa wedi cael ei chynnal ar 18 ac 19 Ionawr, a diolchodd i'r aelodau hynny o'r Cyngor a oedd yn bresennol yn y gynhadledd. Y tri phrif bwnc a drafodwyd oedd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM, Adolygiad Didueddrwydd yr Athro Anthony King mewn perthynas â'r sylw a roddir i wledydd unigol y DU ar y Rhwydwaith, a'r prosiect Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa. Dywedodd yr aelodau hynny o'r Cyngor a fynychodd y gynhadledd ei bod yn ddigwyddiad cyffrous a esgorodd ar drafodaethau bywiog iawn.

Roedd Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC wedi ymweld â Chaerdydd ganol mis Ionawr, ac roedd wedi cynnal rhai cyfarfodydd diddorol iawn a oedd yn cynnwys brecwast busnes gydag Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor y byddai'r Ymddiriedolaeth yn cyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd ac y byddai trafodaethau ynghylch y cyfarfod yn dechrau'n fuan. Roedd penderfyniad polisi wedi'i wneud a oedd yn golygu y byddai Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnal tri chyfarfod y flwyddyn y tu allan i Lundain o hyn ymlaen (sy'n fwy na'r ddau gyfarfod a gynhelir y tu allan i Lundain ar hyn o bryd) - byddai dau ohonynt yn cael eu cynnal yn rhanbarthau Lloegr a byddai'r llall yn cael ei gynnal naill ai yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Dywedodd bod Ymddiriedolaeth y BBC yn parhau i gadw llygad ar agweddau'n ymwneud ag ymddiriedaeth mewn materion golygyddol. Dywedodd hefyd bod prosiect peilot y Cynllun Cymorth ar gyfer Newid i Deledu Digidol wedi'i gwblhau erbyn hyn, a bod contractau mawr wrthi'n cael eu dyfarnu ar hyn o bryd ar gyfer gweithredu'r prif elfennau o waith a oedd yn ymwneud â'r cynllun. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn teimlo y dylai'r cynllun gael ei weithredu gystal ag y bo modd oherwydd ei bwysigrwydd i enw da'r BBC.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr hefyd y byddai adolygiad comisiynu'r Rhwydwaith yn cael ei ystyried yng nghyfarfod Ymddiriedolaeth y BBC yn hwyrach yn y mis, ac y byddai hynny'n amlwg yn fater a fyddai o ddiddordeb mawr i Gyngor Cynulleidfa Cymru.

Nodwyd bod yr Athro Anthony King yn parhau i gynnal yr Adolygiad Didueddrwydd a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, a dywedwyd y byddai'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth. Roedd yn chwilio'n bennaf am dystiolaeth a fyddai'n ategu canfyddiadau pobl ynghylch diffyg didueddrwydd yn y modd y caiff Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu portreadu ar wasanaethau'r Rhwydwaith.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr wrth y Cyngor mai'r prif fater polisi a oedd yn cael ei ystyried gan yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd oedd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM – ac mae'r agenda'n datblygu'n gyflym. Roedd yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC yn ystyried eu safbwynt yn hynod o ofalus. Byddai angen i'r BBC fod yn barod i ymateb yn rhesymol pan fyddai OFCOM yn cyhoeddi ei syniadau amlinellol yn y gwanwyn. Dywedodd yr Ymddiriedolwr wrth

aelodau'r Cyngor Cynulleidfa y byddai angen cyfraniadau ganddynt unwaith y byddai syniadau amlinellol OFCOM wedi cael eu cyhoeddi.

Wrth gyfeirio at y trafodaethau cyhoeddus diweddar ynghylch rhoi peth o incwm ffi'r drwydded deledu i ddarlledwyr eraill, cynghorodd yr Ymddiriedolwr aelodau'r Cyngor i ddarllen araith ddiweddar Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, lle bu'r Cadeirydd yn nodi'r prif wrthwynebiad i'r datblygiad tybiedig hwn, sef y byddai llinellau cyfrifoldeb yn mynd yn aneglur.

Hysbyswyd y Cyngor bod Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon wedi gwneud llawer iawn o waith yn ddiweddar ar ddarparu gwasanaethau'r BBC yn Sgoteg Ulster a Gwyddeleg. Yng nghyfarfod diwethaf yr Ymddiriedolaeth, penderfynwyd y dylai'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y ddwy iaith gael ei chynyddu'n raddol dros amser. Roedd y Gwasanaeth Digidol Gaeleg wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod diweddaraf Ymddiriedolaeth y BBC hefyd.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r Prawf o Werth Cyhoeddus MyLocalNow (BBC Local) yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth.

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol hefyd at y newidiadau sylweddol a oedd wedi eu gwneud yn ddiweddar i wefan Cyngor Cynulleidfa Cymru, a chymeradwywyd y newidiadau hynny. Fodd bynnag, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i fwrw golwg ar y wefan a chynnig sylwadau.

Ymunodd y tîm rheoli â'r cyfarfod.

04. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod. Hysbyswyd y Cyngor bod ei ymateb i Fframwaith Cwyno diwygiedig y BBC wedi cael ei gyflwyno.

05. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru

Dywedodd yr Ymddiriedolwr bod Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM yn mynnu llawer iawn o sylw'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

Yn ogystal, dywedodd yr Ymddiriedolwr wrth y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi pwyslais amlwg ar wneud pethau 'y tu allan i Lundain' ar hyn o bryd, a chân hynny ei adlewyrchu yn y strategaeth eiddo ac ym mhenderfyniad yr Ymddiriedolaeth i gynnal cyfarfodydd yn amlach y tu allan i Lundain.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr y Cyngor bod Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC wedi mwynhau ei ymweliad â Chaerdydd yn fawr, a bod llwyddiannau BBC Cymru Wales a'r bobl y cyfarfu â nhw wedi gwneud argraff arno. Diolchodd yr Ymddiriedolwr i bawb a oedd wedi cyfrannu at yr ymweliad.

Rheolwr Cymru

Wrth gyfeirio at ymweliad Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, dywedodd Rheolwr Cymru bod y cyfarfod staff a gynhaliwyd gan y Cadeirydd wedi arwain at rai cwestiynau ac atebion gonest a meddylgar iawn, a dywedodd bod yr adborth a gafwyd gan y staff am y digwyddiad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Holodd aelodau'r Cyngor ynghylch yr effaith y mae'r cyhoeddiad wedi'i gael ar forâl y staff. Atebodd Rheolwr Cymru trwy ddweud bod y modd y mae gwasanaethau craidd yn cael eu hamddiffyn wedi sicrhau bod morâl y staff yn parhau i fod yn gymharol uchel.

Dywedodd Rheolwr Cymru wrth y Cyngor ei bod hi wedi bod mewn sawl cyfarfod â gwleidyddion yn ddiweddar, gan gynnwys Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru a Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, a dywedodd ei bod hi wedi cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Dethol T 'r Cyffredin ar Faterion Cymreig.

Adroddiad y Bwrdd
Roedd y ffigurau RAJAR diweddaraf yn dangos bod ffigurau gwrando Radio Wales wedi gostwng yn dilyn newidiadau a wnaed i'r arlwy. Roedd ffigurau gwrando Radio Cymru wedi gostwng hefyd, ond roeddent wedi parhau'n gyson ymhlith cynulleidfa graidd yr orsaf.

Nodwyd bod lansio iPlayer ar ddydd Nadolig wedi bod yn llwyddiant mawr. Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ym maes Rygbi'r Undeb oedd y deunydd chwaraeon cyntaf a ddarparwyd trwy gyfrwng iPlayer, a mynegodd y Cyngor beth rhwystredigaeth ynghylch y defnydd gormodol a wnaed o'r camera yn yr awyr yn ystod y gêm rhwng Cymru a Lloegr.

Cyfeiriwyd hefyd at nifer o gyfresi ffeithiol sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd, gan gynnwys cyfres a gyflwynir gan Stephen Fry ar anifeiliaid sydd ar fin diflannu a chyfres *Somebody's Child* a gymerodd dros flwyddyn i'w chynhyrchu ac sy'n cael ei darlledu ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Cyngor y darllediadau newyddion diweddar am y ddynes o Ghana a oedd yn dioddef o afiechyd marwol ac a oedd wedi'i gorfodi i fynd yn ôl i Ghana, gan ganmol y modd yr oedd y stori wedi archwilio'r materion moesol a oedd yn gysylltiedig â'r achos. Holodd aelodau'r Cyngor ynghylch yr elfen "your stories" a geir yn rhaglen *Wales Today*. Dywedodd y Pennaeth Newyddion bod yr elfen hon wedi llwyddo i ennyn diddordeb gwylwyr iau *Wales Today* a bod cymunedau lleol wedi ymateb yn gadarnhaol iddi hefyd. Hysbysodd y Pennaeth Newyddion y Cyngor bod yr elfen hon yn ddefnyddiol hefyd o safbwynt profi ymateb pobl i ddeunydd a allai ymddangos ar BBC Local yn y dyfodol.

06. CYNLLUN RHAGLENNI'R BBC AR GYFER S4C YN 2008-09

Amlinellodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd *gynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C yn 2008-09*, a oedd yn pwysleisio'r rhan allweddol y mae Newyddion a Materion Cyfoes yn ei chwarae yn narpariaeth y BBC ar gyfer S4C. Dywedodd bod y BBC yn cynhyrchu 31% o gyfanswm oriau arlwy S4C ar deledu analog, ond nododd bod y BBC yn cyflwyno 45% o gyfanswm oriau gwylio'r sianel.

Aeth ymlaen i ddweud ei fod wedi cael ei galonogi gan y cynnydd a welwyd yn ffigurau gwylio *Pobol y Cwm* wedi i'r rhaglen gael ei hailfrandio. Roedd *Mosgito*, y rhaglen gylchgrawn i bobl ifanc a gaiff ei darlledu ddwywaith yr wythnos, wedi gwneud yn dda hefyd ac roedd wedi ennill ei phlwyf. Dywedodd bod *O Flaen dy Lygaid* wedi bod yn llwyddiant, ac roedd sefyllfa'r rhaglen *Taro Naw* - a oedd yn cystadlu yn erbyn *Y Byd ar Bedwar* a gynhyrchir gan ITV Wales – wedi cadw aelodau'r tîm hwnnw ar flaenau'u traed. Dywedodd bod rhaglen arbennig o *Taro Naw*, a fyddai'n rhoi sylw i'r etholiad Arlywyddol yn yr Unol Daleithiau, wedi cael ei chomisiynu gan yr Adran Newyddion a Materion Cyfoes.

Dywedodd bod Chwaraeon yn faes lle mae'r BBC yn cystadlu yn erbyn S4C i ennill hawliau darlledu, a nododd y byddai'r BBC yn parhau i ddarparu darllediadau o gêmau rhyngwladol rygbi'r undeb ar S4C.

Cymeradwyodd Cyngor Cynulleidfa Cymru *gynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C yn 2008-09* yn ffurfiol, a bydd y cynllun ynghyd â sylwadau'r Cyngor Cynulleidfa yn cael eu cyflwyno'n awr i Ymddiriedolaeth y BBC.

07. PERFFORMIAD RHAGLENNI BBC CYMRU WALES AR S4C YN 2007-08

Rhoddodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd gyflwyniad ar asesiad tîm rheoli BBC Cymru Wales o berfformiad rhaglenni BBC Cymru Wales ar S4C yn 2007-08. Roedd adroddiad ysgrifenedig wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Cyngor hefyd.

Gofynnodd y Cyngor pam y mae pobl yn llai ymwybodol erbyn hyn o'r ffaith bod y BBC yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C. Atebodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd trwy ddweud bod y BBC yn parhau i gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn gydag S4C.

Gofynnodd y Cyngor hefyd sut yr oedd trafodaethau ynghylch llwyddiant rhaglenni yn gweithio'n ymarferol, ac atebodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd trwy ddweud bod llwyddiant rhaglenni'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd golygyddol misol a gynhelir rhwng y BBC ac S4C.

Gan gyfeirio at feini prawf Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer mesur perfformiad - sef Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth - gofynnodd y Cyngor sut yr oedd 'effaith' yn cael ei mesur. Atebodd tîm rheoli'r BBC trwy gydnabod ei bod hi'n anodd mesur effaith a bod nifer o ddulliau mesur yn cael eu defnyddio. Roedd y dulliau hynny'n cynnwys ymwybyddiaeth o raglenni, a'r graddau yr oedd pobl yn teimlo bod y rhaglenni wedi gwneud gwahaniaeth o safbwynt bod yn heriol a chofiadwy. Roedd

lefelau ymwybyddiaeth o'r rhaglen, maint y gynulleidfa a Mynegai Gwerthfawrogiad uchel yn ffactorau a oedd yn rhan o'r gwerthusiad hefyd.

Hysbyswyd y Cyngor bod Awdurdod S4C yn gorfod darparu adroddiad ar raglenni'r BBC i Ymddiriedolaeth y BBC hefyd.

08. ADOLYGIAD RHEOLWR BBC CYMRU WALES O'R FLWYDDYN

Dechreuodd Rheolwr Cymru ei hadroddiad trwy ddweud bod **creu argraff ar gynulleidfaoedd** wedi bod yn un o'r prif heriau i dîm rheoli BBC Cymru Wales yn ystod 2007. Mae'n debyg mai'r gyfres *Coal House* oedd yr enghraifft unigol orau o hynny. Roedd y gyfres wedi gweithio'n arbennig o dda ar y teledu, ar y radio ac ar-lein. Roedd y ddarpariaeth ar-lein wedi ychwanegu dyfnder at brofiad pobl, ac roedd wedi darparu llawer iawn o ddeunydd ategol ar gyfer ysgolion.

Dywedodd bod darllediadau BBC Cymru Wales o Bencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd wedi bod yn llwyddiannus hefyd, er gwaethaf y ffaith nad oedd BBC Cymru Wales wedi cael yr hawl i ddarlledu'r bencampwriaeth ar y teledu. Roedd y bencampwriaeth wedi cael sylw ar Radio Cymru, Radio Wales, ar-lein ac ar y teledu.

Hysbysodd Rheolwr Cymru y Cyngor bod gwaith arloesol yn cael ei wneud hefyd ar ddatblygiadau aml-lwyfan, sy'n ychwanegu dyfnder at brofiad defnyddwyr gwasanaethau, ac mae *Coal House, Mosgito* a *What's in a name* yn enghreifftiau da o ddatblygiadau o'r fath. Roedd BBC Cymru Wales yn arloesi yn y maes hwn, fel y gwelwyd yn yr yl aml-lwyfan a gynhaliwyd yn gynharach eleni er mwyn arddangos rhai o ddatblygiadau arloesol BBC Cymru Wales a'u rhannu â gweddill y BBC. Cafodd yr yl ei disgrifio fel "*cyfres fywiog o sesiynau*" gan gylchgrawn mewnol y BBC, *Ariel*.

Amlinellodd Rheolwr Cymru rai o'r heriau sy'n wynebu BBC Cymru Wales wrth geisio creu argraff, yn enwedig y buddsoddiad sy'n angenrheidiol i greu a chyflwyno prosiectau sy'n gwneud argraff fawr ar bobl, ac mae'n anochel bod hynny'n golygu llai o oriau darlledu. Cyfeiriodd at ymateb Mark Thompson, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, i'r setliad is na'r disgwyl mewn perthynas â ffi'r drwydded deledu, sef y byddai'r setliad yn arwain at "ostyngiad o 10% mewn cynnyrch ar gyfer y teledu".

Roedd heriau'n gysylltiedig ag uno BBC TWO Wales a BBC2W wrth i'r dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol agosáu. Roedd y broses uno'n cael ei gyrru gan dechnoleg, ond roedd cynulleidfaoedd yn ei chroesawu hefyd. Roedd ymrwymiad BBC Cymru Wales i ddarparu deunydd Saesneg o safon ar y teledu yr un mor gadarn ag erioed, a byddai'n cynnig y deunydd gorau o Gymru a'r Rhwydwaith i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Byddai hynny'n cael ei gyflawni trwy sicrhau mwy o bresenoldeb ar BBC ONE WALES a BBC TWO WALES yn ystod oriau gwylio brig.

Hysbysodd Rheolwr Cymru y Cyngor ei bod yn anochel bod heriau'n codi yn sgîl y datblygiadau hyn, gan gynnwys y posibilrwydd y byddai enw da'r BBC yn cael ei beryglu.

Gan droi at **Gynyrchiadau Teledu ar gyfer y Rhwydwaith**, tynnodd Rheolwr Cymru sylw'r Cyngor at y rhaglenni sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus i BBC Cymru Wales, sef *Doctor Who, Torchwood, The Sarah Jane Adventures, Tribe, British Museum* a *Take a Bow*.

Roedd cyfeiriad Mark Thompson at newid agwedd pendant iawn ac at wneud mwy o waith cynhyrchu y tu allan i Lundain yn galondid. Roedd ei sylwadau ar lwyddiant campus BBC Cymru Wales yn galonogol hefyd, yn ogystal â'r ffaith mai isafswm yn hytrach nag uchafswm yw'r targed sy'n ymwneud â sicrhau bod 17% o gynyrchiadau'r Rhwydwaith yn deillio o wledydd unigol y DU. Dywedodd y Rheolwr bod Adolygiad Cyflenwi'r Rhwydwaith, a gaiff ei gadeirio gan Caroline Thompson, yn archwilio'r maes hwn a bod y Rheolwr ei hun yn aelod o'r gr p.

Roedd hi'n cydnabod bod tipyn o ffordd i fynd o safbwynt datblygu'r modd y caiff Cymru ei phortreadu ar raglenni'r Rhwydwaith.

Gan droi ei sylw at **ddosbarthiad**, dywedodd y Rheolwr bod peth cynnydd wedi'i wneud o safbwynt sicrhau bod Radio Cymru a Radio Wales ar gael ar radio digidol DAB – roedd y drwydded amlblecs ar waith yn awr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, ac roedd y drwydded amlblecs ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'i hysbysebu'n ddiweddar. Dywedodd y byddai lansio Freesat yn rhywfaint o gymorth hefyd, gan y byddai Radio Wales a Radio Cymru ar gael ar y teledu trwy Freesat. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd eang yn dal i fethu codi radio digidol DAB - yn enwedig yng Ngogledd-orllewin Cymru a chymoedd y De.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y defnydd a wneir o fand llydan yng Nghymru, ac roedd gan 90% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd fand llydan yn eu cartrefi erbyn hyn.

Gan droi ei sylw at **orsafoedd radio** BBC Cymru Wales, dywedodd y Rheolwr ei bod yn anochel bod nifer y bobl y mae Radio Wales a Radio Cymru yn eu cyrraedd wedi gostwng ychydig yn dilyn y newidiadau a wnaed i'r arlwy, ond dywedodd bod yr arwyddion cynnar yn awgrymu bod ystod oedran y gwrandawyr wedi gostwng, a hynny heb golli cynulleidfaoedd craidd i orsafoedd radio eraill.

Mae'r gorsafoedd radio wedi creu argraff fawr ar hyd a lled y wlad, trwy uchafbwyntiau megis Pencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd a dramâu radio megis *Wythnos yng Nghymru Fydd*.

Dywedodd mai'r her allweddol ar gyfer y ddwy orsaf oedd cyrraedd mwy o bobl, ac mae Radio Wales yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar y ddarpariaeth a gynigir yn ystod amser brecwast a chanol y bore.

Bu'r Rheolwr yn canmol gwaith Tîm **Cyfryngau Newydd** BBC Cymru Wales, a nododd bod gwaith y Tîm yn gaboledig ac yn arloesol. Defnyddiodd rai o'r gwasanaethau ar-lein a gynhyrchwyd i gyd-fynd â chynyrchiadau teledu ar gyfer y Rhwydwaith, megis *Amazon* a *Torchwood,* fel enghreifftiau. Dywedodd bod y wefan a grëwyd i gyd-fynd â *Coal House* wedi ychwanegu dyfnder at brofiad y gynulleidfa ac

wedi bod yn fodd i ymestyn oes y prosiect, hwyluso cyfraniadau gan gynulleidfaoedd a gwella'r ddarpariaeth addysgol.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod y Tîm Cyfryngau Newydd yn wynebu heriau sy'n deillio o newidiadau strwythurol mewnol a gyflwynir a phwyslais newydd a roddir ar gynhyrchu llai o dudalennau ar gyfer y we a sicrhau bod y tudalennau a gynhyrchir o ansawdd gwell.

Gan droi ei sylw at ddarpariaeth y BBC ar **S4C**, dywedodd y Rheolwr bod y Bartneriaeth Strategol newydd yn gweithio'n dda, a'i bod yn arwain at gynnyrch mwy nodedig gan y BBC a gwaith hyrwyddo a marchnata a wneir ar y cyd ar gyfer rhaglenni a gynhyrchir ganddo. Roedd heriau'r dyfodol yn debygol o gynnwys canlyniad ymgynghoriad S4C ynghylch sianel i blant, a allai ddisodli rhai neu bob un o'r darllediadau a ddarperir gan y BBC o'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer S4C Digidol.

Roedd cyflwyno gwasanaeth **BBC Local** yn debygol o fod yn her arall, gan fod newidiadau strwythurol wedi cychwyn eisoes er mwyn darparu'r gwasanaeth ychwanegol newydd hwn. Byddai cyflwyno'r gwasanaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC, yn arwain at fuddsoddiad a swyddi newydd, cyfle enfawr i gyfoethogi newyddiaduraeth, swyddi ychwanegol y tu allan i Gaerdydd, ac ymrwymiad tipyn ehangach gan y BBC i'r iaith Gymraeg (â 5 gwasanaeth nodedig yn Gymraeg). Fodd bynnag, hysbysodd y Rheolwr y Cyngor ei bod yn bwysig bod y Prawf o Werth Cyhoeddus a'r Asesiad o Effaith ar y Farchnad, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth y BBC, yn cydnabod ac yn ystyried amodau gwahanol y farchnad yng Nghymru (gan nad oedd gan Gymru yr un fath o rwydwaith radio masnachol â Lloegr).

Roedd 78% o staff BBC Cymru Wales, gan gynnwys uwch-reolwyr, wedi mynychu'r cwrs **Gwarchod Ymddiriedaeth** adeg y cyfarfod hwn. Dywedodd y Rheolwr y byddai ailgyflwyno cystadlaethau a'r broses o gymeradwyo'r cystadlaethau hynny yn her yn ystod y misoedd nesaf.

Fodd bynnag, roedd heriau trefniadaethol sylweddol ynghlwm wrth wireddu Dyfodol Creadigol, yn enwedig yr her o reoli morâl staff a rheoli'r risg gysylltiedig i enw da BBC Cymru Wales. Roedd yr heriau eraill yn cynnwys cystadleuaeth gynyddol am gynulleidfaoedd yn y maes darlledu digidol newydd yn ogystal â sôn cynyddol am bwysigrwydd sicrhau lluosogrwydd yn y maes darlledu. Byddai'r Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a gynhelir gan OFCOM ar hyn o bryd yn cyfrannu i'r drafodaeth hon.

Gorffennodd Rheolwr Cymru ei chyflwyniad trwy bwysleisio bod integreiddio adrannau cynhyrchu BBC Cymru Wales yn lleol ac ar lefel y Rhwydwaith wedi bod yn hanfodol bwysig o safbwynt **datblygu talent**. Pe na bai hynny wedi bod yn bosibl,

byddai BBC Cymru Wales wedi bod yn llawer llai ac yn llawer tlotach, a'r cynulleidfaoedd fyddai wedi dioddef.

Ymatebodd y Cyngor trwy gefnogi'r farn bod gweithgarwch aml-lwyfan yn hanfodol, gan ei fod yn gwella ac yn cyfoethogi profiad defnyddwyr gwasanaethau ac yn ymestyn oes rhaglen deledu neu raglen radio.

Cododd y Cyngor y mater a oedd yn ymwneud â lluosogrwydd darlledu, gan holi a fyddai defnyddwyr gwasanaethau'n elwa mewn gwirionedd o gael marchnad artiffisial a gaiff ei chreu i hybu lluosogrwydd. Mynegodd y Cyngor y farn mai didueddrwydd ac ansawdd ddylai fod yn feincnodau allweddol o safbwynt darlledu.

Holodd y Cyngor Reolwr Cymru ynghylch y mater a oedd yn ymwneud â chynhyrchu llai o oriau o gynnyrch, a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar brofiad y gynulleidfa. Gofynnodd y Cyngor hefyd sut y byddai hynny'n effeithio ar y targed sy'n ymwneud â sicrhau bod 17% o gynyrchiadau'r Rhwydwaith yn deillio o'r tu allan i Lundain.

Dywedodd Rheolwr Cymru ei bod yn annhebygol y byddai cynulleidfaoedd yn sylwi ar wahaniaethau mawr yn y cynnyrch gan fod y datblygiad hwn wedi digwydd yn barod i raddau, e.e. yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cyllid a fyddai efallai wedi cael ei glustnodi ar gyfer rhaglenni teledu eraill yn y gorffennol wedi cael ei glustnodi i gynhyrchu *Coal House* yn lle hynny - ac mae'n amlwg bod y gynulleidfa wedi ei ystyried yn brosiect gwerthfawr. Wrth sôn am y targed sy'n ymwneud â sicrhau bod 17% o gynyrchiadau'r Rhwydwaith yn deillio o'r tu allan i Lundain, cydnabu Rheolwr Cymru ei bod yn anochel bod gostyngiad o 10% mewn cynnyrch oriau teledu'n golygu 17% o gyfanswm is.

Gofynnodd y Cyngor hefyd a fyddai rhaglenni heriol unigryw efallai'n diflannu oherwydd toriadau yn y gyllideb. Pwysleisiodd Rheolwr Cymru mai arwahanrwydd a datblygiadau arloesol oedd y ddau beth yr oedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi'u pennu'n flaenoriaethau. Felly, os na fyddai risgiau'n cael eu cymryd, ni fyddai BBC Cymru Wales yn cyflawni ei swyddogaeth yn iawn.

09. CYFRYNGAU NEWYDD A CHYFRANIAD BBC WALES I GYFRYNGAU NEWYDD AR Y RHWYDWAITH - Cyflwyniad gan Reolwr Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC

Amlinellodd Erik Huggers, Rheolwr y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, strategaeth y BBC ar gyfer Cyfryngau'r Dyfodol, gan grynhoi'r strategaeth fel a ganlyn: Trawsnewid -> galluogi -> darganfod -> chwarae -> rhannu.

Un nod allweddol oedd trawsnewid y BBC yn sefydliad 'di-dâp' lle'r oedd unrhyw ddeunydd a recordiwyd yn ddeunydd cyfan gwbl ddigidol, o lens y camera i sgrîn y teledu, y cyfrifiadur neu'r ffôn symudol. Byddai hynny'n sicrhau bod paratoi deunydd ar gyfer amrywiaeth o gyfryngau yn haws. Dywedwyd bod rhannu deunydd yn hanfodol hefyd, ac y dylai'r broses o ddod o hyd i ddeunydd y BBC fod yn haws i ddefnyddwyr nag y mae ar hyn o bryd.

Roedd gallu chwarae'r deunydd yn hawdd yn allweddol i brofiad y defnyddiwr hefyd, ac roedd datblygiadau ar y gweill i symleiddio'r broses hon a dilyn model YouTube o glicio a chwarae. Y weledigaeth hirdymor oedd sicrhau mai'r defnyddwyr fyddai'n bennaf gyfrifol am ddosbarthu deunydd y BBC.

Wrth amlinellu datblygiadau'r gorffennol, dywedodd y Rheolwr wrth y Cyngor bod y rhyngrwyd yn parhau i esblygu, a'i fod wedi datblygu'n gyflym ers 1993 o fod yn seiliedig yn bennaf ar destun i gynnwys testun a delweddau, ac yn fwy diweddar i gynnwys deunydd sain a deunydd fideo. Un cwestiwn allweddol a oedd yn codi wrth gynllunio gwasanaethau cyfryngau a thechnoleg y dyfodol oedd sut yr oedd pobl yn dod o hyd i ddeunydd. Gallai creu tudalennau crynhoi neu dudalennau'n ymwneud â phynciau wella hygyrchedd yn sylweddol. Ni fyddai hynny'n golygu creu deunydd newydd; yn hytrach byddai'n sicrhau ei bod yn haws i bobl gael gafael ar wybodaeth sy'n bodoli eisoes.

Hysbyswyd y Cyngor bod 60,000 o oriau o ddeunydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y teledu ar draws y BBC bob blwyddyn. Fodd bynnag, dywedwyd bod gwefannau nad oeddent yn perthyn i'r BBC yn cynnwys mwy o wybodaeth am raglenni'r BBC na gwefannau'r BBC ei hun. Nodwyd bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hynny.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym iawn ar chwaraeydd cyfryngau mewnol (EMP) - fel bod y profiad o gael gafael ar ddeunydd fideo yn haws i bawb ac yn ateb dibenion mwyfwy ymarferol a fyddai'n cynnwys galluogi defnyddwyr i 'rannu' fideos â'u ffrindiau.

Hysbyswyd y Cyngor gan Reolwr y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol bod ei faes gorchwyl hefyd yn cynnwys BBCi - sef gwasanaethau rhyngweithiol ar y teledu - a oedd yn dod yn fwyfwy poblogaidd wrth i fwy o wylwyr newid o deledu analog i deledu digidol. Roedd y BBC yn parhau i fuddsoddi yng ngwasanaethau BBCi er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n dod yn fwy ymarferol a defnyddiol.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod gwasanaethau wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer ffonau symudol, a fyddai'n debyg i'r gwasanaeth a geir ar y we o safbwynt ymddangosiad a naws.

Galwodd Rheolwr y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol **Archif y BBC** yn '*ddiemwnt garw*', gan ei bod yn cynnwys deunydd sain, deunydd fideo, llythyrau a dogfennau ac ati. Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod cynllun peilot wedi'i gynnal â'r bwriad o sicrhau bod deunydd yr archif ar gael i'r cyhoedd. Roedd y cynllun peilot wedi'i ddefnyddio hefyd i ychwanegu gwerth at brosiectau a oedd yn cael eu cynhyrchu ar y pryd, megis y tymor Pacistan - India yn 2007.

Gan droi ei sylw at lansio prosiect **iPlayer**, dywedodd Rheolwr y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol bod iPlayer wedi cael ei lansio'n llwyddiannus yn ystod 2007 a bod y fersiwn diweddaraf ohono'n gallu rhedeg ar unrhyw blatfform erbyn hyn. Roedd y fersiynau cynnar a gafodd eu treialu'n seiliedig ar fodel lawrlwytho, ond mae

deunydd ar gael i'w ffrydio erbyn hyn ac mae'r gymhareb ffrydio/lawrlwytho yn 8:1 ar hyn o bryd.

Dywedodd y Rheolwr bod radio yn nodwedd o iPlayer a oedd yn cael ei hanghofio weithiau, a dywedodd bod y defnydd a wneir o ddeunydd y gellir ei ffrydio a phodlediadau y gellir eu lawrlwytho'n parhau i gynyddu.

Holodd y Cyngor ynghylch y trefniadau a oedd yn cael eu rhoi ar waith - trwy gyfleuster cyfarwyddo i rieni - i sicrhau nad oedd plant yn gallu gweld deunydd anaddas. Sicrhawyd y Cyngor ei bod yn bosibl gwneud hynny'n barod trwy system iPlayer a oedd yn gofyn am rif adnabod personol a fyddai'n galluogi rhieni i reoli'r deunydd y byddai plant yn gallu ei weld.

Er gwaethaf llwyddiant presennol iPlayer, roedd rhai 'bylchau o bwys' yn parhau i fodoli - yn enwedig o safbwynt darparu deunydd Cymraeg BBC Cymru ar y teledu. Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor mai'r dyhead yn ystod chwarter cyntaf 2008 oedd sicrhau bod 5 awr yr wythnos o ddeunydd Cymraeg BBC Cymru ar y teledu ar gael i'w ffrydio a'i lawrlwytho (7 niwrnod ar ôl i'r deunydd gael ei ddarlledu), a mynd ati i gyflwyno rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer defnyddwyr yn ystod ail chwarter 2008. Dyhead arall oedd integreiddio BBC Radio Player yn gyfan gwbl - gan gynnwys integreiddio radio'r Rhwydwaith a gwledydd unigol y DU yn ôl y galw a darlledu rhaglenni'n fyw i'r iPlayer.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod gwaith yn cael ei wneud yn barod ar iPlayer 'y genhedlaeth nesaf' a fyddai'n gallu mynd i'r afael â materion megis deunydd Eglurder Uchel *(High Definition)*, a'r nod yn y pen draw oedd sicrhau bod iPlayer yn datblygu i fod yn system bersonol ar gyfer trosglwyddo deunydd.

Gan droi ei sylw at **gyfraniad BBC Wales i Gyfryngau'r Dyfodol yn y BBC**, dywedodd y Rheolwr bod Tîm Cyfryngau Newydd BBC Cymru Wales yn gweithio ar elfennau arloesol newydd trwy ddatblygiadau tebyg i'r rhai a welwyd ar wefan *Torchwood*, e.e. gêmau rhyngweithiol. Dywedodd bod dangos pytiau o raglenni megis *Torchwood* ar YouTube - y wefan rhannu fideos - hefyd yn gam a gymerir i ddenu pobl at wasanaethau'r BBC.

Dywedwyd bod BBC Cymru Wales hefyd yn cyfrannu at dechnoleg mapio a fyddai'n ganolog i BBC Local - ac roedd BBC Cymru Wales yn cael ei gydnabod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer datblygu'r math hwn o dechnoleg.

Holodd y Cyngor ynghylch goblygiadau rhai o'r datblygiadau hyn ar ddysgu gydol oes, a gwahoddwyd y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y gwaith y mae NIACE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion) yn ei wneud ar hyn o bryd ar rôl addysgol technoleg newydd.

Holodd y Cyngor ynghylch y materion sy'n codi yn sgîl rhannu deunyddiau, a gofynnodd sut y gellid rheoli'r broses honno.

Ymatebodd Rheolwr y Gr p Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol trwy ddweud bod gwahanol lefelau o reolaeth ar gael. Er enghraifft, mae geo-IP (cyfleuster blocio) wedi cael ei ddefnyddio er mwyn atal deunydd iPlayer rhag cael ei weld dramor. Dywedodd hefyd nad oedd llawer o ddeunydd yn cael ei rannu mewn gwirionedd gan ei fod yn aros ar weinyddwyr y BBC, a nododd mai'r ddolen gyswllt yn unig oedd yn cael ei rhannu.

10. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

1. Nododd y Cyngor ei bod yn bwysig bod unrhyw Asesiad o Effaith ar y Farchnad ac unrhyw Brawf o Werth Cyhoeddus (sy'n gysylltiedig â'r bwriad i gyflwyno gwasanaeth BBC Local) yn ystyried yr amgylchiadau a'r gwahaniaethau neilltuol sy'n bodoli yng Nghymru (megis y ffaith nad oes gan Gymru rwydwaith o orsafoedd radio masnachol lleol tebyg i'r un sy'n bodoli yn Lloegr a'r ffaith bod y wasg ddyddiol leol yng Nghymru yn wannach) yn hytrach na cheisio dod i gasgliadau sy'n berthnasol i'r DU yn ei chyfanrwydd yn unig.

2. Cymeradwyodd y Cyngor gynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C yn 2008-09, ac argymhellodd y dylai Ymddiriedolaeth y BBC gymeradwyo'r cynllun hefyd.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Mawrth yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC yng Nghaerdydd, ac y byddai cinio preifat ar gyfer y Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau 6 Mawrth.

***